# PROSPECTWS

# CYNLLUN DERWEN

Arfogi cenhedlaeth newydd o genhadon i Gymru

"Byddan nhw'n cael eu galw yn goed hardd,
wedi'u plannu gan yr ARGLWYDD
i arddangos ei ysblander."
Eseia 61:3

# Cynllun Derwen

Bwriad y cynllun yw datblygu arweinwyr a fydd yn flaenllaw mewn cenhadaeth arloesol i'r ardaloedd yng Nghymru ble mae tystiolaeth fyw i'r efengyl wedi edwino neu ddiflannu. Bydd yn siapio mynegiant cyfoes o Gristnogaeth yn ein gwlad. Nid yw'n gynllun academaidd, yn hytrach y bwriad yw datblygu sgiliau a chymeriad yr arweinydd. Bydd y cynllun yn arfogi'r myfyrwyr gyda profiadau y bydd rhaglenni, mudiadau, a chyrsiau eraill yn adeiladu arnynt.

Mae Cynllun Derwen yn brosiect gan Cymrugyfan ac wedi datblygu mewn partneriaeth gyda Souled Out Cymru. Ein dyhead yw i bartneru a chyd-weithio gydag amrediad eang o fudiadau ac enwadau yng Nghymru.

# Rhai Nodweddion...

Nid yw'n gynllun academaidd er bydd elfennau o ddysgu, darllen ac astudio diwinyddol...

Nid yw'n gynllun ar gyfer un enwad neu fudiad ond mae'n ceisio gwasanaethu amrediad eang, er y gallai bartneru a rhai yn benodol...

Nid yw'n raglen hyfforddi cyffredinol ond mae â ffocws benodol ar ddatblygu arweinwyr i genhadaeth newydd yng Nghymru - i weld yr efengyl yn treiddio ardaloedd a grwpiau sydd heb dystiolaeth fyw...

Nid yw'n raglen sy'n agored i unrhywun. Bydd myfyrwyr yn cael eu argymell a'u gwahodd i fod yn rhan o'r gymuned ddysgu...

Felly, sut mae'n gweithio?

# Ein Bwriad

Bydd myfyriwr yn rhan o'r cynllun am ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn bydd cyfleon i ddysgu, cymdeithasu, gweddïo a thyfu mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol, ochr yn ochr â pherthynas â mentor lleol a phrofiadau ar leoliad.

# Grŵp Cenedlaethol

Bydd y grŵp cenedlaethol yn gymuned dysgu yn hytrach na chynhadledd. Y nod fydd tyfu mewn perthynas a chreu "ton ddysgu" ar gyfer y tymor. Byddwn yn gwahodd arbenigwyr, arweinwyr ac arloeswyr sy'n ymwybodol o'n cyd-destun yng Nghymru i lywio'r dysgu yn yr encil.

Bydd yr encil yn cynnwys sesiynau dysgu ond bydd y pwyslais ar ddysgu mewn cymuned. Byddwn yn creu cyfleon i drafod a dysgu rhwng cyfoedion, gyda mentor, ynghyd â phrofiadau cymdeithasol dros fwyd, goelcerth neu ddiod gyda'r hwyr.

Bydd tîm Derwen yn gyfrifol am ddarparu profiad preswyl o'r radd uchaf ac awyrgylch ffafriol i ddysgu, creu perthynas ac atgofion arbennig.

## Tonnau Dysgu

FFYDD & doniau arloesol

GWEDDI & mawl wrth arloesi

ARWEINYDDIAETH & gweledigaeth

GRYMUSO & chael ein harwain gan yr Ysbryd

CENHADAETH & miniogi doniau efengylu

SANCTEIDDRWYDD & dyfalbarhau

# Rhanbarthol

Bydd y grwpiau llai hyn yn casglu myfyrwyr sydd mewn ardal benodol, gan roi cyfle i gymdeithasu a gweddïo dros eu gilydd, yn ogystal â pharhau i drafod a chymhwyso yr hyn a ddysgwyd yn yr encil genedlaethol. Gall y grwpiau hyn gyfarfod mewn cartref mentor neu eglwys leol ble bydd amser o weddi, mawl, cyd-fwyta, tyfu mewn perthynas a dysgu yn cael ei fwynhau.

Bydd amledd ac amser y cyfarfodydd hyn yn amrywio o un rhanbarth i'r llall (yn ddibynnol ar aelodau'r grŵp). Y prif bwrpas yw tyfu mewn perthynas wrth gyfarfod i annog a dysgu mewn cymuned.

# Mentor Lleol

Mae'n ofynnol i bob myfyriwr gael mentor lleol bydd yn ymrwymo i'w cynorthwyo dros y ddwy flynedd. Bydd yn ceisio sicrhau bod y myfyriwr yn cael yr elw gorau o'r cynllun, yn ogystal â cheisio annog dysgu a datblygiad ehangach. Fe all hyn gynnwys profiadau gwahanol tu fewn a thu hwnt i Gymru.

Bydd yn ofynnol i'r mentor fynychu'r cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol, ac i gyfarfod yn rheolaidd gyda'r myfyriwr. Am fwy o wybodaeth ynglyn â rôl y mentor neu dewis mentor, cysylltwch â ni i dderbyn y daflen "Pwy yw'r Mentor?"

## Dyddiadau Pwysig

Medi 25 - 26, 2020 - Grŵp Cenedlaethol (1)
Tachwedd 27 - 29, 2020 - Arfogi
Mawrth 19 - 20, 2021 - Grŵp Cenedlaethol (3)
Medi 24 - 25, 2021 - Grŵp Cenedlaethol (4)
Tachwedd 26 - 28, 2021 - Arfogi
Mawrth 18 - 19, 2022 - Grŵp Cenedlaethol (6)

*Byddwn yn cyfarfod ar-lein pan yn ofynnol yn ôl mesurau Llywodraeth Cymru.*

# Y Myfyrwyr

Tra yr ydym yn ymwybodol iawn na fydd unrhyw arweinydd yn rhagori ym mhob un o'r meysydd hyn, dyma rai nodweddion sylfaenol gall fod yn amlwg ym mywyd yr arweinydd newydd. Byddwn yn gobeithio adeiladu ar y nodweddion hyn dros y cynllun dwy flynedd.

# Nodweddion Sylfaenol

1. Pren (derw) Cyfiawnder – unigolion sydd a chymeriad a photensial i fod yn gryf a gwydn ac sydd wedi eu gwreiddio'n ddwfn yng ngras Duw ac sy'n medru gwrthsefyll heriau a gwrthwynebiad.

2. Calon dros Gymru – gydag ymdeimlad o alwad Duw ar eu bywydau i fod yn rhan o genhadaeth newydd yng Nghymru, ac sydd wedi eu argymell gan arweinwyr / gweinidog lleol ar gyfer Cynllun Derwen.

# Nodweddion i'w Datblygu

**Wedi eu gwreiddio yng Nghrist** – tystiolaeth amlwg o'u cerddediad personol.

**Hunan ddisgybledig** – yn ymrwymo i weddi, darllen y Gair & cymuned eglwys.

**Ffydd i weld newid** – anfodlonrwydd gyda'r ffordd y mae pethau yng Nghymru a hyder i weld pethau'n newid trwy ras Duw.

**Calon genhadol** – cariad tuag at y coll a dyhead i gyhoeddi'r efengyl.

**Gwytnwch** – yn emosiynol gryf a ddim yn or-barod i roi fyny.

**Sgiliau entrepreneur** – arweinwyr naturiol sy'n barod i fentro a dechrau prosiectau newydd ac yn symbylu newid (o fewn yr eglwys neu tu hwnt).

**Parod i ddysgu** – parodrwydd i fod yn atebol a gwneud ymrwymiad i'r broses o ddysgu cymunedol.

# Y Mentor

Yn 'Mentoring Matters' gan CPAS, mae mentora yn cael ei ddiffinio fel 'perthynas o ymddiriedaeth sy'n ddeinamig, bwriadol a gwirfoddol ble mae un person (y mentor) yn galluogi person arall (y sawl sy'n cael ei mentora) i ddod i adnabod gras Duw i'w lawnder yn eu bywydau a datblygu eu potensial i wasanaethu a hyrwyddo teyrnas Dduw.'

Bydd y mentor yn ymrwymo i weddïo dros y myfyriwr, gwneud amser i gryfhau a dyfnhau eu perthynas, adnabod ardaloedd twf a siapio eu dysgu ar gyfer y tymor.

# Nodweddion Sylfaenol

Bydd y mentor yn unigolyn sy'n tyfu fel disgybl i Grist, yn arddangos cymeriad Crist-debyg ac yn dibynnu arno o ddydd i ddydd.

Bydd hefyd yn berson i'r myfyriwr ei (h)efelychu, yn eu cynorthwyo i dyfu yn eu perthynas â Christ, magu cymeriad Crist-debyg a dirnad galwad penodol Duw ar gyfer eu bywyd a'u cenhadaeth.

# Dewis Mentor

Pan fydd myfyriwr wedi ei (d)derbyn ar y rhaglen bydd sgwrs rhyngddynt a'i arweinwyr lleol (ble mae'n bosib) gyda golwg ar ddewis mentor posib. Efallai bydd y myfyriwr mewn perthynas â mentor yn barod, ac, os bydd y ddwy ochr yn cytuno, y byddai modd i hyn barhau ar gyfer Cynllun Derwen. Mewn achosion eraill bydd tîm Derwen yn ceisio yn weddigar i bartneru myfriwr â mentor lleol.

I wybod mwy am ddewis mentor, neu os ydych chi wedi cael gwahoddiad i fod yn fentor i rywun ar Gynllun Derwen, cysylltwch â ni i dderbyn y daflen sy'n amlinellu nodweddion y mentor yn fanylach.

# Oes Cost?

Mae'r cynllun dwy flynedd oddeutu £900 i bob myfyriwr, sy'n cynnwys holl gostau preswyl, adnoddau dysgu a grantiau i gael profiad ar leoliad.

Bydd Cynllun Derwen yn cael ei ariannu gan Cymrugyfan a bydd cymhorthdal ar gael, ond rydym yn gwahodd eglwysi ac unigolion fydd yn elwa o'r rhaglen i ystyried sut y gallant gyfrannu tuag at y costau hyn.

# Camau Nesaf...

1. Rydym yn eich gwahodd i gwblhau y ffurflen gais.
2. Yn dilyn sgwrs gyda'ch arweinydd lleol / gweinidog (pan fo'n bosib), byddwch yn derbyn gwahoddiad i gyfweliad anffurfiol gyda dau o dîm Cynllun Derwen i drafod y rhaglen.
3. Yn dilyn ein sgwrs, os byddwn yn eich gwahodd i fod yn rhan o Cynllun Derwen byddwn yna yn edrych i benodi mentor ar eich cyfer.

# Cysylltwch â ni

Os hoffech chi wybod mwy am y rhaglen, sut i wneud cais, i bartneru gyda ni neu i dderbyn mantolen lawn ynglyn â'r costau peidiwch oedi i gysylltu â ni.

derwen@cymrugyfan.org